| | |
|---|---|
| **Meeting** | Cofnodion Cyfarfod Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr |
| **Date** | 4 Mehefin 2024 |
| **Time** | 2pm to 4pm |
| **Venue** | Microsoft Teams |

### Cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol

| | |
|---|---|
| Mr R Davies (RD) Cadeirydd | Rheolwr Grŵp – Cymorth Busnes |
| Ms E Giles (EG) Ysgrifennydd Uwch | Swyddog Gwasanaethau Disgyblion |
| Ms R Garner (RG) | ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) Arweinydd y Blynyddoedd Cynnar, Gwybyddiaeth a Dysgu a CMMI (Namau Meddygol ac Echddygol Cymhleth) |
| Ms B Davies (BD) | Rheolwr Tîm Gofal Plant |
| Cyng J-P Blundell (y Cynghorydd JPB) | Aelod Cabinet dros Addysg |

### Cynrychiolwyr Ysgolion (cymunedol a gwirfoddol a reolir)

| | |
|---|---|
| Ms Delyth Davies | Pennaeth Dros Dro, Ysgol y Ferch o'r Sgêr |
| Mr R Pawar (RP) | Pennaeth, Ysgol Gyfun Bryntirion |
| Mrs K John (KJ) | Pennaeth, Ysgol Gynradd Bracla |

### Cynrychiolwyr Ysgolion (gwirfoddol a gynorthwyir)

| | |
|---|---|
| Mr J Tarran (JT) – Is-gadeirydd | Pennaeth, Ysgol Gynradd yr Archddiacon John Lewis yr Eglwys yng Nghymru |
| Mr A Howells (AH) | Pennaeth, Ysgol Uwchradd Gatholig yr Archesgob McGrath |

### Cynrychiolwyr yr Esgobaeth Gatholig

| | |
|---|---|
| Ms A Robertson (AR) | Cyfarwyddwr Ysgolion, Archesgobaeth Caerdydd |

### Cynrychiolwyr Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru

| | |
|---|---|
| Ms Rebecca Morteo (RM) | Arweinydd Addysg Esgobaethol dros dro ar gyfer Esgobaeth Llandaf |

### Cynrychiolwyr Rhieni-lywodraethwyr

| | |
|---|---|
| Ms C Bloomfield (CB) | Rhiant-lywodraethwr, Coleg Cymunedol y Dderwen |
| Ms Rebecca Owens (RO) | Rhiant-lywodraethwr, Ysgol Heronsbridge |

### Cynrychiolwyr cymunedol

| | |
|---|---|
| Mr Shaun Sweeney (SS) | Llywodraethwr Cymunedol, Ysgol Gynradd Tremaen |

### Aelodau ychwanegol

| | |
|---|---|
| Ms C Christy (CC) | Swyddog Derbyn Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Mrs M Treharne (MT) | Cyd-drefnydd Ymgysylltu ag Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |

## 1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Gwahoddodd RD y rhai a oedd yn bresennol i gyflwyno eu hunain.

Nodwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd JPB, DD, a BD.

Yn absennol heb ymddiheuro roedd RM, CB ac SS.

## 2. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024 a materion oedd yn codi

Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

## 3. Aelodaeth ddrafft o'r fforwm am flwyddyn ysgol 2024-2025

Cyfeiriodd EG at Atodiad B, sef dogfen ddrafft yn manylu ar aelodaeth arfaethedig y fforwm ar gyfer 2024-2025, i ofyn am unrhyw newidiadau a thynnodd sylw at y canlynol:

- Y Cynghorydd Martyn Jones yw'r Aelod Cabinet newydd dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid, gofynnodd EG a hoffai'r aelodau wahodd y Cynghorydd Martyn Jones i ddod yn aelod o Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd yr aelodau'n gytûn y dylid estyn gwahoddiad iddo ymuno;

- Dywedodd JT wrth yr aelodau y bydd yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol hon ac na fyddai bellach yn aelod o'r fforwm. Diolchodd RD i JT am ei gyfraniad fel aelod o'r fforwm ac am ei rôl fel is-gadeirydd. Cynigiodd JT gysylltu â phenaethiaid yr ysgol wirfoddol a gynorthwyir i gael cynrychiolydd arall;

- Dywedodd JT hefyd wrth yr aelodau y byddai angen rhywun yn lle RM a dywedodd efallai mai PB fyddai'r pwynt cyswllt nesaf; a

- Holodd AR ynghylch yr aelodaeth arfaethedig gan gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a Gwasanaethau Ieuenctid. Cadarnhaodd RD nad oes rhaid cael cynrychiolydd gwleidyddol ac y byddai'r gwahoddiad yn cael ei ymestyn i gynrychiolydd cymunedol, i gynrychioli'r gymuned ehangach ym Mhen-y-bont ar Ogwr a fyddai hefyd yn darparu'r arbenigedd a'r wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol o'u rôl.

## 4. Rhaglen Waith 2023-2024

Cyfeiriodd EG at Atodiad C a rhoddodd ddiweddariad ynglŷn â chyfrifoldebau Fforwm Derbyn Pen-y-bont ar Ogwr a chadarnhaodd fod y cyfrifoldebau wedi'u cyflawni'n briodol yn ystod blwyddyn ysgol 2023-2204.

Holodd RD a oedd angen cymeradwyo'r rhaglen a'i hanfon at Lywodraeth Cymru. Dywedodd EG ei bod wedi'i chyflwyno fel dogfen fewnol i gynorthwyo'r fforwm fel modd o gadarnhau cydymffurfiaeth. Cadarnhaodd EG y bydd yr Adroddiad Blynyddol gofynnol yn cael ei gyhoeddi i Lywodraeth Cymru yn nhymor yr hydref 2024.

4.1 Adroddiad Derbyn Awdurdodau Lleol – Dysgwyr Bregus

Cyfeiriodd EG at Atodiad D gan roi trosolwg o'r Panel Mynediad Teg Prif Ffrwd (MFAP).

Dywedodd EG wrth yr aelodau mai pwrpas y MFAP yw ystyried yr achosion unigol mwyaf cymhleth ar gyfer derbyn i leoedd prif ffrwd, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu lleoli'n deg ac mor gyflym â phosibl, mewn ysgolion sy'n gallu diwallu eu hanghenion, gyda'r effaith negyddol leiaf posibl ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg ar gyfer y dysgwr a'r darparwr.

Rhoddodd EG enghreifftiau o geisiadau sy'n cael eu hystyried gan MFAP:

- Unrhyw gais am le prif ffrwd mewn ysgol arall mewn perthynas â dysgwr sydd wedi'i wahardd yn barhaol;
- Unrhyw gais i ddysgwr gael ei dderbyn i grŵp blwyddyn sy'n wahanol i'r grŵp blwyddyn oedran cronolegol;
- Unrhyw ddysgwr y penderfynwyd y byddai trefniadau symud wedi ei reoli yn fuddiol iddo;
- Unrhyw ddysgwr sydd wedi bod allan o addysg am gyfnod sylweddol (o leiaf ddau fis neu fwy) neu sydd â phroblemau presenoldeb difrifol er gwaethaf cyswllt parhaus gan y Gwasanaeth Lles Addysg ac efallai y bydd angen dechrau o'r newydd yn rhywle arall;
- Unrhyw ddysgwr sy'n mynd i Ddarpariaeth Amgen y Bont ar hyn o bryd y mae angen ei ailintegreiddio'n ôl i leoliad prif ffrwd newydd;
- Unrhyw ddysgwr y mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn ymwneud ag ef ac a allai elwa o newid ysgol brif ffrwd;
- Ceisiadau lle bydd y dysgwr yn y DU, neu mae eisoes yn y DU, o dan gynllun ffoaduriaid cenedlaethol ac y gwnaed cais am le prif ffrwd; ac
- unrhyw ddysgwr prif ffrwd bregus neu anodd ei osod nad yw'n cael ei gynnwys yn benodol uchod.

Dywedodd EG wrth yr aelodau fod y data yn Atodiad D yn cynrychioli'r ysgolion hynny lle mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod derbyn a gofynnodd i'r ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ddarparu gwybodaeth debyg i'r fforwm i roi trosolwg pellach.

Cyflwynodd EG y data i ddangos bod nifer y ceisiadau a ystyriwyd gan MFAP ar gyfer ysgolion cynradd yn gymharol isel ar 1.83% o gyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd hyd yma ar gyfer y flwyddyn ysgol hon. Mewn cymhariaeth, mae 18.78% o geisiadau ysgolion uwchradd a dderbyniwyd hyd yma eleni wedi cael eu hystyried gan y Panel, gyda'r mwyafrif o ganlyniad i geisiadau am ddysgwyr parhaol wedi'u gwahardd.

Dywedodd EG wrth yr aelodau y bydd y data hwn yn cael ei ddiweddaru bob tymor a'i gyflwyno i'r fforwm.

Cyflwynodd MT y data mewn perthynas â gwaharddiadau parhaol ar gyfer 2022-2023 a 2023-2024 gan nodi'r canlynol:

- y cynnydd yn nifer y gwaharddiadau parhaol gyda 30 o waharddiadau parhaol ar gyfer 2023-2024, 23 uwchradd a saith cynradd yn hytrach na 15 gwaharddiad parhaol ar gyfer 2022-2023;
- yn bennaf yn 2022-2023, y rheswm uchaf am waharddiad parhaol oedd ymosodiad corfforol ar ddisgybl, a’r cam-drin geiriol a’r ymddygiad bygythiol tuag at oedolyn. Ar gyfer 2023-2024 mae’r prif resymau dros wahardd wedi newid ychydig gyda cham-drin geiriol ac ymddygiad bygythiol tuag at oedolyn, wedi’i ddilyn gan ymosodiad corfforol ar ddisgybl ac ymosodiad corfforol ar oedolyn;
- a’r pryderon ynghylch y ddarpariaeth sydd ar gael.

Nododd RD ac RP effaith toriadau i gyllidebau ysgolion, toriadau i wasanaethau cymorth a'r cynnydd mewn problemau ymddygiad.

Nododd RP fod disgyblion yn aros yn hirach mewn darpariaeth prif ffrwd tra maent yn aros i fynd drwy'r Panel Mynediad i Addysg.

Cododd AH bryder bod dysgwyr sydd wedi'u gwahardd yn barhaol yn cael eu pasio o un ysgol awdurdod lleol i’r nesaf, yn hytrach na bod darpariaeth arbenigol ar gael.

Cododd KJ bryder ynghylch y cynnydd mewn gwaharddiadau parhaol ar lefel ysgol gynradd, y toriadau mewn cyllidebau ac adnoddau a hyd y rhestr aros ar gyfer darpariaeth arbenigol.

Dywedodd JT fod athrawon a staff cymorth yn gorfod cefnogi'r disgyblion hynny sydd angen rheolaeth ychwanegol ac roedd hyn yn anodd gyda thoriadau'n cael eu gwneud ac mae'n bwysau parhaus.

Dywedodd MT eu bod bellach yn delio â dysgwyr sydd wedi'u gwahardd ddwywaith yn barhaol.

RD i egluro i'r aelodau gyfrifoldebau'r MFAP mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u gwahardd unwaith yn barhaol. Cadarnhaodd RD i'r aelodau fod dewis rhieni yn dal i sefyll ac mai rôl y MFAP yw monitro'r sefyllfa a sicrhau nad oes pwysau anghymesur ar unrhyw un ysgol.

Esboniodd RD fod MFAP yn fforwm proffesiynol i drafod a phenderfynu ar briodoldeb y derbyniadau hynny a nodwyd eisoes o dan gylch gorchwyl MFAP. Ni all y panel atal cais na threfniadau i dderbyn dysgwr. Ei waith yw sicrhau pontio cyflym a llyfn. Sefydlwyd MFAP yn seiliedig ar gyngor cyfreithiol i sicrhau bod yr awdurdod derbyn yn cydymffurfio â’r Cod Derbyn i Ysgolion, ond nid oes gan y panel bwerau ychwanegol a dewis rhieni yw’r ffactor pwysicaf.

Holodd RP a fyddai dewis rhieni o ran disgybl a waharddwyd yn barhaol yn cael ei dderbyn pe bai'r ysgol/grŵp blwyddyn yn llawn. Cadarnhaodd RD nad yw hwn yn eithriad sy’n cael ei ganiatáu ac na fyddai'r disgybl yn cael ei dderbyn dros PAN.

Cododd RP bryder ynghylch diogelu wrth dderbyn disgyblion a waharddwyd yn barhaol a gofynnodd am eglurder ynghylch a yw dewis rhieni yn cael blaenoriaeth ai peidio. Cadarnhaodd RD mai dewis rhieni yw'r ffactor pwysicaf o hyd ond bod asesiadau o'r disgybl ac unrhyw risgiau cysylltiedig yn cael eu hasesu ar ôl iddynt gael eu derbyn a’u rhoi ar y gofrestr. Nid yw’r ddeddfwriaeth yn caniatáu i’r awdurdod derbyn atal y disgybl rhag cael mynediad i’r man addysg y gofynnwyd amdano. Mae'r RD yn cydnabod yr heriau y mae hyn yn eu cyflwyno i ysgolion.

Esboniodd RD fod yr amgylchiadau hyn yn ymwneud â disgyblion sydd wedi'u gwahardd yn barhaol ddwywaith a bod mwy o reolaeth ynglŷn â pha mor briodol yw'r ddarpariaeth.

## 5. Y Diweddaraf o ran Grŵp Derbyniadau CCAC (Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru)

Dywedodd EG wrth yr aelodau am yr eitemau trafod canlynol yng nghyfarfod Grŵp Derbyn ADEW ar 26 Ebrill 2024:

**Diweddariadau gan Lywodraeth Cymru**

- Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y canllawiau Gwahardd Disgyblion a gyhoeddwyd yn flaenorol ym mis Tachwedd 2019 (dogfen rhif 255/2019) wedi’u diweddaru ym mis Ebrill 2024 (dogfen rhif 294/2024).

Cadarnhaodd MT fod y canllawiau hyn wedi cael eu rhannu gyda'r ysgolion.

**Trefniadau Derbyn i Ysgolion Cydgysylltiedig**

- Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y grŵp y bu 22 o ymatebion i'r ymgynghoriad, gyda 13 gan awdurdodau lleol. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebion yn cytuno â’r cynnig, ac maent yn disgwyl cael penderfyniad erbyn diwedd mis Mai.

  Yr amserlen arfaethedig yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol lunio a mabwysiadu’r cynllun cymhwyso cyntaf erbyn 1 Ionawr 2025 ac erbyn 1 Ionawr ar gyfer pob blwyddyn ddilynol. Bydd y cynllun cymhwyso cyntaf yn berthnasol i drefniadau derbyn yn y flwyddyn ysgol 2027 i 2028.

**Cod Derbyn**

- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl gallu ymgynghori ar hyn yn y flwyddyn ysgol newydd.

**Gwladolion Tramor**

- Gofynnodd Llywodraeth Cymru am unrhyw bwysau newydd sy'n cael eu profi. Eglurodd CNPT ac Abertawe eu bod yn dal i weld cynnydd yn y niferoedd.

Rhoddodd EG syniad i’r aelodau o nifer y ceisiadau prif ffrwd yn ystod y flwyddyn a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol ar gyfer 2023-2024 hyd yma:

1.23% o geisiadau Cynradd
2.08% o geisiadau Uwchradd

**Hyfforddiant Apeliadau**

- Holwyd y rhai oedd yn bresennol ynghylch eu darpariaeth ar gyfer hyfforddiant apeliadau. Cafwyd ymateb cymysg gyda rhai yn darparu hyfforddiant mewnol ac eraill yn defnyddio cwmnïau cyfreithiol o’r tu allan. Dywedodd EG wrth aelodau’r fforwm fod yr awdurdod lleol wedi dilyn hyfforddiant apeliadau derbyn ac apeliadau gwahardd yn ddiweddar ar 17 Mai 2024.

**Trefniadau Derbyn wedi eu Cyhoeddi**

- Gwnaed cais gan Gyngor Caerdydd yn holi a allai awdurdodau lleol eraill rannu y trefniadau maent wedi eu cyhoeddi ar gyfer derbyn i ysgolion a’u llawlyfr i rieni ar gyfer 2024-2025. O'r rhai sydd wedi rhannu maent i gyd yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen, gyda rhai yn cynnwys gwybodaeth fanylach.

  Awgrymodd EG y gellid ystyried cynnwys:
- Rhif Cyfeirnod Treth y Cyngor ar y ffurflen gais
- Dyddiadau Tymor yn y Prosbectws Dechrau Ysgol

**Dyddiadau Tymor**

- Dywedodd WG wrth y grŵp y disgwylir datganiad ym mis Mai ynghylch dyddiadau tymhorau 2025-2026. Cadarnhaodd EG i'r aelodau nad yw'r dyddiadau hyn wedi'u derbyn eto.

Mae cyfarfod nesaf CCAC wedi'i drefnu ar gyfer 5 Gorffennaf.

## 6. Unrhyw faterion eraill

Ni chodwyd unrhyw eitemau.

## 7. Dyddiad y cyfarfod nesaf

15 Hydref 2024 2-4pm
4 Chwefror 2024 2-4pm
3 Mehefin 2024 2-4pm

Diolchodd RD i bawb am fod yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben am 2:50pm